

2020 (LIC20-43)

**DEDDF Y CORONAFEIRWS
2020**

**Hysbysiad Datgymhwysio Gofynion
Newid Amserau Sesiynau Ysgolion
(Cymru) (Rhif 2) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1)(b) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

Cyfnod penodedig

1. Yn yr hysbysiad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 1 Medi 2020.

Datgymhwysio gofynion newid amserau sesiynau ysgolion

2. Mae rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009(2) (“Rheoliadau 2009”) wedi eu datgymhwysio am y cyfnod penodedig.

Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y parhaodd ysgolion i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws. Cynyddodd ysgolion eu gweithrediadau o 29 Mehefin 2020 er mwyn galluogi dysgwyr i ailgydio, dal i fyny a

(1) 2020 p. 7. Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 17 gan O.S. 2020/640 (Cy. 147) i gynnwys rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/572 (Cy. 54)) yn y rhestr ym mharagraff 7(5). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Hysbysiad hwn.

(2) O.S. 2009/572 (Cy. 54).

pharatoi at yr haf a dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. O 1 Medi 2020, bydd ysgolion yn cynyddu eu gweithrediadau ymhellach gyda phob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol.

(3) Mae amserau sesiynau ysgolion ar gyfer ysgolion a gynhelir yn cael eu penderfynu fel arfer gan y corff llywodraethu a chaniateir iddynt gael eu penderfynu o dan rai amgylchiadau gan awdurdod lleol o dan adran 32C o Ddeddf Addysg 2002(1). Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2009 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan awdurdod lleol ac mae rheoliad 4 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

(4) O ganlyniad i'r angen i gymryd mesurau rheoli clefyd, gan gynnwys cyfyngiadau posibl ar nifer y disgyblion a gaiff gyrraedd a gadael yr ysgol ar yr un pryd, gall fod angen newid amserau sesiynau ysgolion pan fydd gweithrediadau ysgolion yn cynyddu o 1 Medi 2020. Ni fydd yn bosibl i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2009 yn yr amser sydd ar gael cyn 1 Medi 2020 a gall addasiadau pellach i amserau sesiynau ysgolion fod yn ddymunol yn ddiweddarach yng ngoleuni'r profiad o weithredu ysgolion o dan yr amgylchiadau presennol.

Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

18 Awst 2020

(1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32C gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).